



HEDDLU GWENT AC AWDURDOD HEDDLU GWENT
CYNLLUN IAITH GYMRAEG
 2007 | 2008



BWRDD YR IAITH
 GYMRAEG • WELSH
 LANGUAGE BOARD



Heddlu
 Gwent
 Police

HEDDLU GWENT AC AWDURDOD HEDDLU GWENT CYNLLUN IAITH GYMRAEG

1. CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun hwn yn nodi nodau strategol Heddlu Gwent ac Awdurdod Heddlu Gwent o ran yr iaith Gymraeg. Mae hefyd yn nodi'r gweithgareddau penodol sydd wedi eu cynllunio i gyflawni'r nodau.

Mae heddluoedd yng Nghymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddant wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Heddlu Gwent ac Awdurdod Heddlu Gwent yn gweithredu'r egwyddor hon pan yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd y maent yn eu plismona.

Mae Heddlu Gwent yn cwmpasu Awdurdodau Unedol Dinas Casnewydd, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy gyda chyfanswm poblogaeth o 530,000.

Yn ystod 2006/07 cyflawnwyd oddeutu 53,000 o droseddau yn yr ardal. Rydym yn cyflogi tua 2,100 o staff, sy'n cynnwys 1,486 o swyddogion heddlu a 935 staff heddlu. Mae gan y Llu dri rhanbarth tiriogaethol; Dinas Casnewydd, Torfaen a Sir Fynwy a Caerffili a Blaenau Gwent. Mae aml safleoedd sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer swyddogaethau plismona tiriogaethol a phencadlys.

Mae symudiad demograffig yn y gallu i siarad Cymraeg yn ardal y Llu wedi bod yn sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, yn debyg i rannau eraill o Dde Ddwyrain Cymru. Mae Gwent wedi gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg o 3.5% ym 1991 i 10.4% yn 2001. Mae dadansoddiad daearyddol o'r wybodaeth hon i'w weld yn Ffigur 1.

	1991		2001		% Cynnydd
	Nifer	%	Nifer	%	
Caerffili	9,710	6.0	18,237	11.2	5.2
Blaenau Gwent	1,522	2.2	6,417	9.5	7.3
Torfaen	2,126	2.5	9,780	11.1	8.7
Sir Fynwy	1,634	2.1	7,688	9.3	7.2
Casnewydd	2,878	2.3	13,135	10.0	7.7
Cyfanswm Gwent	17,870	3.4	55,257	10.4	7.0

Ffigur 1 - Canran y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ym 1991 a 2001 (data Cyfrifiad)

Un o'r prif resymau am y newid hwn yw effaith addysg cyfrwng Cymraeg, gyda'r grŵp oedran mwyaf o siaradwyr Cymraeg rhwng 10-14 oed. Fodd bynnag, mae amharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg i gynnal busnes, gan gynnwys gyda'r heddlu, yn parhau.

Nod y Cynllun yw cefnogi'r iaith Gymraeg er mwyn hwyluso ei defnydd o fewn yr Heddlu fel iaith fusnes, a hefyd ei defnydd gan y cyhoedd yn eu cysylltiad gyda'r heddlu. Mae'r Cynllun yn adlewyrchiad o rai heddluoedd eraill yng Nghymru, ond

mae hefyd yn adlewyrchu'r amgylchiadau lleol yng Ngwent, yn arbennig o ran y terfynau amser a nodir yn y Cynllun Gweithredu.

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yw'r swyddog arweiniol ACPO ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg. Caiff gefnogaeth gan y Grŵp Iaith Gymraeg, sydd â'r rôl o gydgyssylltu datblygiad y Cynllun a'i Gynllun Gweithredu. Cadeirir y Grŵp gan Brif Uwcharolygydd ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Awdurdod Heddlu. Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Bwrdd Hyder a Chydraddoldeb a Phwyllgor yr Awdurdod Heddlu ar Amrywiaeth ac Adnoddau Dynol.

Mae'r meysydd gweithredol a chefnogaeth canlynol wedi eu cynrychioli ar y grŵp: (wedi eu nodi yn Ffigur 2)

Comander Rhanbarthol, (Cadeirydd)
Adran Hyfforddiant, Pencadlys.
Rheolwr Canolfan Alwadau
Cyfathrebu Corfforaethol, Pencadlys.
Adran Hyfforddiant, Pencadlys.
Awdurdod Heddlu, Pencadlys
Diogelwch Cymunedol, Pencadlys
Swyddog Amrywiaeth, Pencadlys
Arolygiaeth y Llu, Pencadlys
Rheolwr Personél, Pencadlys
Pennaeth Gweinyddu, Pencadlys
Gwasanaethau Corfforaethol, Pencadlys
Adran Systemau Gwybodaeth, Pencadlys
ASJ, Adran Cyfiawnder Troseddol, Casnewydd

Ffigur 2

2. CYD-DESTUN CYMRU GYFAN

2.1. Strategaeth Iaith Gymraeg Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (WACPO) 2006

Mae'r ymagwedd strategol tuag at y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg wedi ei seilio ar yr **egwyddorion** canlynol:

- **Bod i'r Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal.**
- **Gwella darpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd yn eu dewis iaith.**

I gefnogi'r egwyddorion hyn byddwn yn mabwysiadu'r **tactegau** canlynol (safonau gofynnol cyffredin*):

- **p** Un Cynllun Iaith Gymraeg arloesol
- Hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog er mwyn cynyddu hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg

- Pob staff newydd yn cael eu hannog i ddangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg
- Gweithio tuag at gynnig dewis iaith yn y prosesau recriwtio a phenodi
- Anogaeth a chefnogaeth i staff i ddysgu'r Gymraeg neu i wella eu sgiliau
- Dynodi swyddi lle mae angen lefel benodol o allu yn y Gymraeg
- Gweithio i warantu dewis iaith yn y rhyngwynebau cyhoeddus sylfaenol (ardaloedd derbynfa a chownteri cyhoeddus, ystafelloedd rheoli / Canolfannau Galw, Celloedd, a Chyswllt Ysgolion.)

2.2 Yn ystod y 3 blynedd nesaf, nod Heddluoedd yng Nghymru a'u Hawdurdodau Heddlu fydd:

- gweithredu yn fwy fel sefydliad dwyieithog.
- cynyddu nifer y staff all siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn hyderus a'u hannog i ddefnyddio eu sgiliau yn amlach i gyfrannu at sicrhau dewis iaith i'r cyhoedd.
- codi ymwybyddiaeth staff presennol a staff newydd ynglŷn ag ymrwymiad yr heddlu i gynnig gwasanaeth dwyieithog.
- gweithio tuag at ddenu rhagor o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o gymunedau Cymraeg i ymuno â'r heddlu fel swyddogion a staff yr heddlu. Rhan o hyn fyddai creu mwy o gyswllt gyda siaradwyr Cymraeg a chyda gwahanol gynrychiolwyr grwpiau iaith Gymraeg.
- datblygu strategaeth sgiliau iaith a fyddai'n annog holl aelodau newydd staff i arddangos y gallu i ddangos sgiliau cwrteisi iaith Gymraeg sylfaenol (Lefel 1) fel rhan o'r broses ymsefydlu, yn ogystal â chanolbwyntio ar y staff presennol sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd.
- sicrhau bod gweithgareddau a gweithdrefnau mewnol Adnoddau Dynol yn cydnabod yn llwyr ac yn ystyried gallu yn y Gymraeg i fod yn sgil, ochr yn ochr â sgiliau angenrheidiol eraill.
- ceisio cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol weithgareddau a gweithdrefnau yn y Swyddfa Gartref, HMIC a heddluoedd eraill Cymru.
- gwneud y gorau o bob cyfle i ddangos ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg fel rhan o'i ymdrechion i gydnabod materion Hil ac Amrywiaeth yng Nghymru

Mae llwyddiant y Cynllun hwn yn gyfrifoldeb ar bob aelod o staff.

3. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

Polisiâu a Mentrau newydd

- 3.1 Bydd heddlu Gwent yn sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb iaith yn cael ei ystyried ym mhob agwedd o waith yr Heddlu a bod Rhanbarthau ac Adrannau yn gweithredu yn unol â'r Cynllun.
- 3.2 Bydd yr holl gynlluniau, mentrau neu bolisiau newydd a fabwysiadir gan Heddlu Gwent yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun hwn. Pan adolygir y polisiau presennol yn flynyddol, manteisir ar y cyfle i ystyried yn llawn anghenion siaradwyr Cymraeg a disgwyliadau'r polisi hwn.

Mae cyfeiriadau yn y polisi hwn at gynlluniau, mentrau a pholisiau perthnasol eraill yr Heddlu. Bydd y Llu hefyd yn asesu canlyniadau tebygol ar iaith unrhyw bolisi neu fenter newydd yn ystod y gwaith paratoi a phan yn monitro'r polisi neu'r fenter.

- 3.3 Bydd adolygu a chyflwyno polisiau a mentrau newydd yn galluogi'r Heddlu i:

Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau a symud tuag at gyflawni amcanion y Cynllun hwn. Manteisir ar bob cyfle i symud yn nes ar gyflawni egwyddorion cydraddoldeb. Mae'r egwyddorion a ddisgrifir yn y Cynllun hwn yn berthnasol i bob polisi a menter newydd a weithredir gan yr Heddlu neu ar ran yr Heddlu.

Gweithredu

- (i) Bydd Comandariaid Rhanbarthol a Phenaethiaid Adran yn sicrhau bod holl waith yr heddlu'n cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cynllun hwn a Strategaeth Iaith WACPO.
- (ii) Bydd perchnogion polisiau newydd neu berchnogion polisiau sy'n destun adolygiad blynyddol yn cynnwys cymalau perthnasol yn y polisiau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cynllun hwn a chyda Strategaeth Iaith WACPO. Cyfrifoldeb perchnogion polisiau fydd monitro eu bod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.
- (iii) Bydd rheolwyr prosiect yn ystyried gofynion aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg pan yn paratoi'r briff ar gyfer prosiect. Caiff cymalau priodol eu cynnwys ym manyleb y prosiect i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith. Bydd y rheolwr prosiect perthnasol yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad gyda'r Cynllun Iaith drwy gydol y prosiect.
- 3.4 Bydd Grŵp Iaith Gymraeg Heddlu Gwent yn uniongyrchol gyfrifol am hyrwyddo materion iaith Gymraeg ac am fonitro cydymffurfiad gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd ymhlith Rhanbarthau ac Adrannau. ACPO neu'r Awdurdod Heddlu fydd yn gyfrifol am ddynodi'r angen am unrhyw newid i'r Cynllun ac am ddarparu'r adroddiadau angenrheidiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Grŵp Iaith Gymraeg Heddlu Gwent fydd y pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau am y Cynllun a'i weithrediad.
- 3.5 Os bydd unrhyw bolisiau neu fentrau newydd a allai gael effaith ar Gynllun Iaith Gymraeg y Llu neu ar Gynllun sefydliad arall, yna ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ni fydd y Cynllun yn newid heb gytundeb Bwrdd yr Iaith.

Gweithredu

- i) Bydd penaeithiaid pob Rhanbarth ac Adran yn enwi aelod o'r tîm rheoli i weithredu fel cydgysylltydd lleol ar gyfer materion iaith Gymraeg. Y cydgysylltydd lleol fydd yn gyfrifol am gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwahanol dimau ac am lenwi'r ffurflenni monitro lleol.
- ii) Bydd Heddlu Gwent yn sicrhau bod copi o'r Cynllun, ynghyd â chanllawiau gweithredu, ar gael i staff drwy ffyrdd priodol, gan gynnwys defnydd o Fewnrwyd y Llu.

4. DARPARU GWASANAETH

- 4.1 Wrth ddarparu ein gwasanaeth plismona rydym yn cydnabod bod gan aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg sy'n dod i gysylltiad â'r Heddlu yr hawl i dderbyn gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond rhaid sylweddoli nad yw pob aelod o staff yn siarad Cymraeg ac felly mewn rhai amgylchiadau ni allwn ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog pan yn ymdrin ag
 - a) Argyfyngau neu ddigwyddiadau difrifol, neu
 - b) Lle y byddai'n effeithio effeithlonrwydd gweithrediadau'r heddlu, gwneud y lefel yn annerbyniol e.e. gweithrediadau cyfreithiol penodol megis anadlieddyddion, stopio/chwilio ac ati.
- 4.2 Os na fydd aelod o staff ar gael ar unwaith, bydd gweithdrefnau yn eu lle i gysylltu ag aelod Cymraeg o staff. Byddwn yn cysylltu'n ôl gyda'r aelod o'r cyhoedd i ddarparu'r gwasanaeth perthnasol.
- 4.3 Pan fyddwn yn ymwybodol o'r dechrau bod aelod o'r cyhoedd angen gwasanaeth Cymraeg, caiff ei ddarparu.
- 4.4 Mewn ymdrech i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr, caiff siaradwyr Cymraeg eu dynodi ym mhob Rhanbarth / Adran.

Bydd yr holl staff yn gyfarwydd â'r mesurau sydd yn eu lle i weithredu darpariaeth y polisi.

Gweithredu

- (i) Bydd yr adran Adnoddau Dynol yn sicrhau bod rhestr gyfoes o siaradwyr Cymraeg ar gyfer defnydd mewnol er mwyn ymateb i geisiadau am wasanaeth Cymraeg, a bod staff yn gwybod sut i gael cymorth pan fydd ei angen.
- 4.5 Mewn realiti, bydd gallu'r Llu i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn eu dewis iaith yn dibynnu ar allu a hyder y staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn gyhoeddus. Un o amcanion Strategaeth Iaith WACPO yw 'hybu gweithleoedd dwyieithog er mwyn cynyddu hyder y staff i ddefnyddio'r Gymraeg'. Y nod yw creu ethos dwyieithog yn y gweithle a fydd yn rhoi mwy o hyder i'r staff arfer a defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Gweithredu

- i) Y cydgysylltwyr iaith Gymraeg Rhanbarthol ac Adrannol fydd yn gyfrifol am hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu lle bo hyn yn ymarferol.
- ii) Mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal o fewn yr Heddlu.

Anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y gwaith pan yn cyflawni eu dyletswyddau cyn belled nad yw'n amharu ar effeithlonrwydd cyfathrebu mewnol.

- iii) Yn unol ag egwyddorion WACPO caiff siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eu hannog a'u cefnogi i wneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn y gwaith.

5. Safonau Gwasanaeth Cymraeg

5.1 Mae gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i gyfathrebu â'r Heddlu yn Gymraeg neu Saesneg, beth bynnag fo'u dewis.

5.2. Wrth ymdrin â phartion eraill sy'n gyfrifol am weinyddu'r system Cyfiawnder Troseddol h.y. y Llysoedd, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Carchardai a Gwasanaeth Eriyn y Goron, bydd yr Heddlu yn sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu mabwysiadu sy'n amlygu dewis yr unigolyn o iaith mewn systemau cyfrifiadurol ac mewn ffeiliau.

5.3 Gwasanaethau Cyfieithu

Nod Heddlu Gwent yw darparu gwasanaeth cyson a chytbwys o'r un safon yn y ddwy iaith yn ei wasanaeth i'r cyhoedd, yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Gall gwaith cyfieithu gael ei wneud gan staff o fewn Heddlu Gwent pan yn briodol neu gan wasanaeth cyfieithu allanol dynodedig. Cedwir manylion siaradwyr Cymraeg ar system rheoli personél Delphi, yn ogystal â lefel eu rhuglder. Bydd pob Rhanbarth/Adran yn gyfrifol am gost y gwasanaethau cyfieithu y maent yn eu defnyddio.

Gweithredu

- i) Dylai unrhyw bamffledi, taflenni neu ddeunydd cyhoeddusrwydd gael eu cyfieithu cyn eu hargraffu.
 - ii) Anogir siaradwyr Cymraeg yn y Llu i ddrafftio dogfennau / llythyrau ac ati yn Gymraeg yn gyntaf. Cefnogir eu hymdrechion gan y darparwyr cyfieithiadau allanol a fydd yn eu gwirio a'u golygu / prawf ddarllen.
 - iii) Mabwysiadir egwyddorion 'Cymraeg Clir' pan yn cynhyrchu unrhyw waith ysgrifenedig.
- 5.4 Caiff aelodau Cymraeg o'r staff a dysgwyr eu hannog i wisgo bathodyn bychan yn dangos i'r cyhoedd eu bod yn siarad Cymraeg a Saesneg, neu eu bod yn dysgu Cymraeg.
- 5.5 Bydd Heddlu Gwent yn disgwyl unrhyw drydydd parti a gyflogir ar eu rhan i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn unol ag amodau'r Cynllun. Caiff yr union fanylion eu hamlinellu yn y dogfennau contract.
- 5.6. Pan yn cynllunio ac yn cyflwyno unrhyw wasanaethau ar gyfer y cyhoedd, bydd Heddlu Gwent yn ystyried natur ieithyddol yr ardal, y gymuned a'r sefydliadau addysgiadol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi a'i diwygio / diweddarau pan yn cyflwyno gwybodaeth i swyddogion lleol newydd.
- 5.7. Caiff gallu Heddlu Gwent, neu unrhyw drydydd parti arall a gyflogir ar eu rhan,

neu unrhyw bartner, i ddarparu darpariaeth safonol o ddewis iaith ei fonitro.

Gweithredu

- i) Bydd y penaethiaid Rhanbarthol ac Adrannol yn gyfrifol am sicrhau safon cyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith.
- ii) Bydd y cydgysylltwyr iaith Gymraeg Rhanbarthol ac Adrannol yn annog staff Cymraeg eu hiaith a dysgwyr i wisgo bathodyn bach yn dweud wrth y cyhoedd eu bod yn siarad Cymraeg.
- iii) Bydd Heddlu Gwent yn cofnodi ac yn trosglwyddo gwybodaeth ynglŷn â dewis iaith aelodau o'r cyhoedd i bartion eraill sy'n gyfrifol am weinyddu'r system Cyfiawnder Troseddol.
- iv) Bydd Heddluoedd Cymru yn rhannu arfer da ac yn cydweithio ar brosiectau er budd eu gwahanol Gynlluniau Iaith. Caiff hyn ei gyflawni drwy sefydlu Grŵp Iaith Heddluoedd Cymru.
- v) Caiff sefyllfa iaith Gymraeg yr holl ardaloedd ledled y Llu eu cynnwys ym mhroffil ward pob Swyddog Cymdogaeth. Caiff y wybodaeth hon ei diweddarau pan fydd swyddogion newydd yn cymryd gofal am y ward. Bydd y Rhanbarthau yn cadw cofnod o'r wybodaeth.

6. DARPARIAETH GWASANAETH AR GYFER CYHOEDD GWENT

Gohebiaeth Ysgrifenedig

- 6.1 Mae Heddlu Gwent yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig a llythyrau yn Gymraeg a Saesneg

Caiff llythyrau yn y naill iaith a'r llall eu hateb a'u harwyddo yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol yn unol â tharged corfforaethol y Llu. Pan na fydd hyn yn bosibl anfonir cydnabyddiaeth wedi ei arwyddo ac yna diweddariadau am gynnydd.
- 6.2 Bydd pob cylchlythyr, taflen, llythyr safonol a ffurflenni a anfonir i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd pob ffurflen a gynhyrchir yn ganolog sy'n cynnwys manylion cosbau penodedig yn ddwyieithog.
- 6.3 Os bydd unrhyw aelod o staff yn gohebu drwy lythyr neu e-bost gydag aelod o'r cyhoedd yn dilyn sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg, yna bydd yr ohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu yn newis iaith yr aelod hwnnw o'r cyhoedd. Os na fydd yr aelod staff yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn hyderus, dylent geisio cymorth neu gael cyfieithiad gan y darparwr allanol.
- 6.4 Bydd y Llu yn cychwyn gohebiaeth yn Gymraeg gyda phobl y gwyddom, oherwydd cysylltiad blaenorol, sy'n dymuno gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob Rhanbarth/Adran yn cadw cronfa ddata o'r rheini sy'n dymuno trafod eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.5 Bydd holl fanylion safonol ar bapur swyddogol, yn cynnwys dalennau blaen negeseuon ffacs yn y Llu yn ddwyieithog. Bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg neu ar y chwith i'r Saesneg gyda'r ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, ansawdd ac eglurder. Mae hyn yn cynnwys unrhyw destun safonol.

Mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt a negeseuon e-bost (teitl swydd, Rhanbarth / Adran ac ati).

- 6.6 Er mwyn gweithredu'r polisi uchod, bydd yr holl staff yn ymwybodol o'r trefniadau hyn yn ogystal â'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau o staff nad sy'n siarad Cymraeg i gyfathrebu â'r cyhoedd.

Gweithredu

- i) Bydd Rheolwyr Busnes Rhanbarthau ac Adrannau yn enwi staff penodol a fydd yn elwa o gael CYSGLIAD neu unrhyw feddalwedd Cymraeg perthnasol arall a fyddai'n hyrwyddo gallu aelodau unigol o staff i ysgrifennu gohebiaeth yn Gymraeg.
- ii) Bydd yr Adran Systemau Gwybodaeth yn trefnu i'r aelodau hyn o staff dderbyn y meddalwedd. Bydd y rheolwr llinell perthnasol yn trefnu hyfforddiant ar gyfer ei ddefnyddio os bydd angen.
- (iii) Bydd Rheolwyr Busnes yn sicrhau bod yr holl fanylion safonol sy'n ymddangos ar bapur pennawd y Llu, neu ar ffurf electronig, neu ar ddalennau ffacs a ddefnyddir ar gyfer gohebu swyddogol yn ddwyieithog.
- (iv) Bydd pob Rhanbarth/Adran yn cadw cofnod cyfredol o enwau'r bobl sy'n dymuno cael trafod busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.
- (v) Bydd pob ffurflen sy'n cynnwys manylion penodol dirwy neu gosb sy'n cael ei hanfon i'r cyhoedd yn gwbl ddwyieithog.

7. CYFATHREBU DROS Y FFÔN

- 7.1 Mae'r Llu yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Caiff pob galwad gyhoeddus a wneir i rifau allanol cyhoeddedig yr Heddlu neu alwadau mewnol i Ystafelloedd Rheoli eu hateb yn ddwyieithog, yn Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg. Bydd staff yn dangos sensitifrwydd a chwarteisi pan yn ymateb i alwadau Cymraeg.

Os bydd y galwr/wraig yn dymuno siarad Cymraeg a bod yr aelod o staff sy'n ateb yr alwad yn methu siarad Cymraeg, caiff yr alwad ei hailgyfeirio i siaradwr Cymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, gwneir trefniadau i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ddychwelyd yr alwad cyn gynted â phosibl. Ond rhoddir ystyriaeth bob amser i natur a phwysigrwydd yr alwad.

- 7.3 Bydd Heddlu Gwent yn ceisio cael siaradwyr Cymraeg ar gael yn yr Ystafelloedd Rheoli / Canolfan Alwadau'r Llu i ddelio gydag aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth 999 sy'n siarad Cymraeg.
- 7.4 Bydd Ystafell Reoli y Llu yn darparu cyfarwyddiadau i staff ynglŷn â sut i ymateb yn briodol i alwadau ffôn gan y cyhoedd.
- 7.5 Bydd gan bob peiriant ateb ar rifau ffôn allanol a gyhoeddir gan yr Heddlu ar gyfer mynediad uniongyrchol ar gyfer y cyhoedd neges ddwyieithog.
- 7.6 Caiff staff sy'n siarad Cymraeg eu henwi ym mhob Rhanbarth/Adran a chedwir

cronfa ddata gyda'u manylion. Bydd hyn yn caniatáu i Ranbarthau/Adrannau roi sylw priodol i alwadau a ailgyfeirir yn unol â dymuniadau'r galwr neu er mwyn sicrhau bod rhywun yn dychwelyd yr alwad os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith.

Gweithredu

- (i) Bydd tîm rheoli Ystafell Rheoli y Llu yn paratoi canllawiau ac yn trefnu hyfforddiant, pan fydd angen hynny, ar gyfer staff yr Ystafell Reoli ynglŷn â sut i ateb galwadau ffôn yn briodol yn unol â nodau'r Cynllun hwn. Bydd y tîm rheoli yn monitro'r polisi hwn.
- (ii) Bydd pob aelod o staff sy'n ymateb yn uniongyrchol i alwadau ffôn allanol yn trin y galwadau hynny yn unol â'r canllawiau sydd yn yr adran hon.

8. CYFARFODYDD CYHOEDDUS

- 8.1. Bydd croeso i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod cyhoeddus yr Heddlu neu'r Awdurdod Heddlu siarad Cymraeg neu Saesneg. Bydd hysbysiadau, gwahoddiadau a phapurau eraill yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn esbonio bod hyn yn bosibl pan wneir cais ymlaen llaw.
- 8.2 Bydd yr egwyddor o ddarparu dewis iaith neu ymateb yn gadarnhaol i gais am gyfraniad yn y Gymraeg hefyd yn berthnasol mewn cyfarfodydd lleol y cyngor, cyflwyniadau a sgwrsiau a gynhelir mewn sefydliadau addysg ac yn y gymuned. Bydd Heddlu Gwent yn darparu staff sy'n siarad Cymraeg at ddiben annerch ysgolion, cymdeithasau, grwpiau ieuenctid ac ati ar faterion sydd o ddiddordeb plismona yn unol â dymuniadau'r sefydliad / grŵp.
- 8.4 Yn unol â dyhead yr heddlu i wneud rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith fusnes mewnol, caiff staff sy'n cadeirio cyfarfodydd eu hannog i agor a chloi cyfarfodydd mewnol yn ddwyieithog er mwyn dangos statws cyfartal i'r ddwy iaith.

Gweithredu

- (i) Ym mhob cyfarfod neu gynhadledd gyhoeddus a gynhelir gan Heddlu Gwent neu Awdurdod Heddlu Gwent, bydd cadeirydd y digwyddiad yn agor y trafodaethau gyda chyfarchiad dwyieithog. Hefyd dywedir wrth gyfranogwyr y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael, gyda rhybudd ymlaen llaw, ac y gellir gwneud cyfraniadau yn eu dewis iaith.
- (ii) Bydd penaethiaid neu Reolwyr Rhanbarthol / Adrannol yn sicrhau bod aelodau o staff sy'n gyfrifol am gynrychioli'r Llu mewn unrhyw gyfarfod allanol yn cynnig y dewis o ddarparu'r gwasanaeth naill ai yn y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog, ac yn ymateb yn gadarnhaol i gais i dderbyn y gwasanaeth yn Gymraeg.

9. CYSWLLT ARALL GYDA'R HEDDLU

- 9.1. Bydd croeso i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno trafod unrhyw fater wyneb yn wyneb â'r Heddlu i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 9.2 Bydd Heddlu Gwent yn sicrhau darpariaeth ar gyfer unigolion sy'n dymuno

siarad Cymraeg pan yn mynychu eiddo'r Heddlu. Caiff hysbysebion a phosteri ddwyieithog eu gosod mewn mannau cyhoeddus mewn gorsafoedd heddlu ac adeiladau'r heddlu i dynnu sylw at y cyfleusterau hyn.

- 9.3 Pan fo hynny'n ymarferol o fewn rhanbarthau/adrannau, bydd staff sy'n siarad Cymraeg wedi eu lleoli mewn gweithleoedd lle mae aelodau o'r cyhoedd sy'n aml yn siarad Cymraeg yn dymuno trafod materion trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 9.4 Ym mhob modd arall o gyfathrebu, bydd y Llu yn cyfathrebu â'r cyhoedd yn eu dewis iaith.
- 9.5 Pan gyfwelir unigolion fel rhan o ymchwiliad, bydd Heddlu Gwent yn hysbysu unigolion ar lafar ynglŷn â'r hawl i gael cyfweliad wedi ei gynnal yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â dymuniad yr unigolyn. Cedwir cofnod o'r penderfyniad a'i drosglwyddo i bartneriaid perthnasol i sicrhau y perchir dewis iaith yr unigolyn. Os nad oes Swyddog sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, gwneir trefniadau i gael gafael ar swyddog sydd ar gael.

Gweithredu

- (i) Bydd staff derbynfa / cownter blaen gorsafoedd heddlu, staff sy'n ateb y ffôn a staff sy'n gweithio mewn dalfeydd yn cynnig ac yn hwyluso dewis iaith mewn modd rhagweithiol.
- (ii) Caiff staff sy'n gallu siarad neu'n dysgu Cymraeg eu hannog i gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog ar ddechrau unrhyw gyfarfod neu sgwrs er mwyn hwyluso dewis iaith.
- (iii) Bydd staff yn ymateb yn gadarnhaol i gais am wasanaeth yn y Gymraeg a hwyluso'r broses os nad ydynt yn siarad Cymraeg eu hunain.
- (iv) Bydd staff dalfeydd yn hysbysu unigolion ynglŷn â'r hawl i gael eu cyfweld yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'u dewis. Gwneir cofnod bod dewis iaith wedi ei gynnig, yn ogystal â chofnod o benderfyniad yr unigolyn. Caiff y dewis iaith ei drosglwyddo i bartneriaid Cyfiawnder Troseddol fel rhan o gyfrifoldeb Heddluoedd i hwyluso dewis iaith yn y Sector Cyfiawnder Troseddol.

10. WYNEB CYHOEDDUS HEDDLUOEDD

Hunaniaeth Gorfforaethol

10.1 Bydd hunaniaeth gorfforaethol Heddluoedd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.

Bydd y dogfennau a'r arwyddion canlynol i'w cael yn y ddwy iaith -

Rhybuddion arestiad
Gwarantau arestiad
Bathodynnau (lwniform, helmed ac ati)

Cardiau busnes
 Arwyddion meysydd parcio
 Tafenni cyhuddo
 Slipiau cyfarch
 Dogfennau ymgynghori
 Copi o dystiolaeth yr heddlu pan gyhuddir – ar gais
 Rhuban amgylchynu ardal
 Gwarantau mynediad
 Ffurflenni tystiolaeth / tystion
 Dalennau ffacs
 Rhybuddion cosb benodedig
 Tafenni gwybodaeth gyffredinol
 Siacedi (HEDDLU, WARDEN TRAFFIG ac ati)
 Papurau pennawd
 Mapiau lleoliadau
 Tafenni Gwarchod Cymdogaeth
 Hysbysiadau o bob math oddi mewn a thu allan i adeiladau'r heddlu
 Arolygon barn (drwy'r post / wyneb i wyneb / ffôn)
 Tocynnau parcio
 Cerbydau / hofrennydd heddlu
 Cyhoeddiadau ar gyfer ysgolion, grwpiau gwirfoddol, yr henoed ac ati
 Derbynebau (ar gyfer eiddo personol tra yn y ddalfa)
 Derbynebau, anfonebau a sieciau
 Gwarantau chwilio
 Arwyddion (parhaol – yn adeiladau'r heddlu)
 Arwyddion (dros dro – ar ffyrdd)
 Llythyrau safonol
 Ffurflenni datganiad
 Gwysion
 Iwniffformau
 Hysbysiadau
 Siacedi melyn yr heddlu (gyda'r gair: HEDDLU)

- 10.2 Bydd unrhyw ddogfen newydd a fydd ar gael i'r cyhoedd hefyd yn ddwyieithog. Bydd fersiwn Gymraeg yn ymddangos gyda statws cyfartal i'r fersiwn Saesneg ar unrhyw arwydd neu hysbysiad.

Arwyddion

- 10.3 Bydd holl arwyddion mewnol ac allanol yr heddlu yn ddwyieithog.
- 10.4 Bydd pob arwydd yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb i'r ddwy iaith trwy fod yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 10.5 Bydd pob arwydd cyhoeddus arall sy'n dod o fewn cyfrifoldeb yr Heddlu yn yr un modd yn ddwyieithog e.e. arwyddion ffyrdd dros dro, electronig neu arwyddion cyfrifiadurol, arwyddion apeliadau am wybodaeth, damwain, arwyddion 'stop' ac 'arafwch'.
- 10.6 Cyfrifoldeb y Rhanbarthau / Adrannau yw canfod gwallau mewn arwyddion a hysbysu'r Adran Ystadau.

Gweithredu

- (i) Bydd Rhanbarthau / Adrannau yn sicrhau bod pob arwydd a hysbysiad yn ddwyieithog a bydd fersiwn Cymraeg yn ymddangos gydag amlygrwydd cyfartal i'r fersiwn Saesneg.

11. CYHOEDDIADAU A DEUNYDD YSGRIFENEDIG (YN CYNNWYS FERSIYNAU ELECTRONIG)

11.1 Dogfennau Allanol

Bydd cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig yr Heddlu a'r Awdurdod Heddlu (ac eithrio fersiynau electronig) a gynhyrchir i'w defnyddio gan y cyhoedd yn ddwyieithog.

Mae'r fethodoleg a ddangosir yn Atodiad 'A' yn dangos pa eitemau fydd bob amser yn ddwyieithog a pha eitemau a fydd fel arfer yn ymddangos mewn un iaith yn unig. Rhaid blaenoriaethu gwaith a defnyddio adnoddau cyfieithu ar gyfer yr eitemau mwyaf pwysig.

Pan fo hynny'n bosibl, bydd pob dogfen gyhoeddus yn cynnwys fersiwn Cymraeg a Saesneg. Bydd y testun Cymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith i'r testun Saesneg. Lle nad yw hyn yn ymarferol oherwydd anawsterau argraffu, caiff fersiwn Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd.

Ni fydd fersiwn Cymraeg dogfen yn costio mwy na fersiwn Saesneg a bydd o'r un safon.

Pan gynhyrchir fersiwn uniaith o ddogfen neu ffurflen, bydd arni neges yn cadarnhau bod y ddogfen neu'r ffurflen ar gael yn yr iaith arall.

11.2 Dogfennau Mewnol

Yn unol â dyheadau'r heddlu i wneud rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith busnes mewnol, anogir y staff i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar eitemau sydd i'w defnyddio'n fewnol, pan fo hynny'n briodol ac yn ymarferol.

Ni fydd dogfennau mewnol yn cael eu cyfieithu ar gost dogfennau a gyfieithir ar gyfer defnydd y cyhoedd. Defnyddir y canllawiau yn Atodiad 'A' i flaenoriaethu rhwng eitemau mewnol ac allanol.

- 11.3 Mae Heddlu Gwent yn defnyddio dogfennau a gynhyrchir yn ganolog e.e. gan gyrff megis y Swyddfa Gartref a'i hasiantaethau partner, ac a ddosbarthir i'r cyhoedd. Yn y gorffennol mae nifer o'r dogfennau hyn wedi eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig ond byddwn yn parhau i annog sefydliadau o'r fath i gynhyrchu eu holl ddogfennau yn ddwyieithog fel na chaiff ein Cynllun Iaith ni ei gyfaddawdu. Bydd Heddluoedd Cymru hefyd yn parhau i ofyn i'r Asiantaeth Genedlaethol Gwella'r Heddlu i gynllunio a darparu dewis iaith yn y prosesau recriwtio a dyrchafu er mwyn cynnig dewis iaith gwirioneddol i'r cyhoedd a'r staff.

Gweithredu

- (i) Mae Heddlu Gwent yn awyddus i annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith busnes mewnol. Dylai staff sy'n gyfrifol am gynhyrchu eitemau at ddefnydd mewnol ystyried y cyfle i gynnwys y ddwy iaith.
- (ii) Bydd Heddluoedd Cymru'n parhau i ofyn i'r Swyddfa Gartref a'i asiantaethau partner, megis Asiantaeth Genedlaethol Gwella'r Heddlu, i gydnabod bodolaeth dwy iaith swyddogol yng Nghymru a'r angen i greu a chynhyrchu prosesau a llenyddiaeth ddwyieithog.

12. FFURFLENNI A DEUNYDD ESBONIADOL

- 12.1 Bydd ffurflenni a deunydd esboniadol argraffedig yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd angen cynhyrchu ffurflenni / taflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân ond gwneir pob ymdrech i gadw hyn i gyn lleied â phosibl.
- 12.2 Pan fydd hi'n amhosibl neu'n ymarferol i gyhoeddi dogfen yn cynnwys y ddwy iaith, cyhoeddir y fersiwn Cymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd, a byddant ar gael fel ei gilydd mewn swyddfeydd a manau dosbarthu eraill. Bydd y dogfennau hefyd yn cynnwys neges yn cadarnhau bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

13. HYSBYSIADAU I'R WASG

Gweithredu

- i) Cedwir cofnod o'r dewisiadau yn yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol. Caiff data ei adolygu a'i ddiweddau'n flynyddol.

14. YMGYRCHOEDD CYHOEDDUSRWYDD, HYSBYSIADAU CYHOEDDUS A HYSBYSIADAU RECRIWTIO

- 14.1 Mae Heddlu Gwent wedi ymrwymo i gynnal mentrau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog ar ba bynnag ffurf y maent (e.e. posteri, bwletinâu gwybodaeth taflenni, arolygon, arddangosfeydd, stondinau arddangos, papurau newydd, radio, teledu, sinema, fideo, CD, DVD a thapiau sain).
- 14.2 Bydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebu ar gyfer recriwtio staff mewn cyhoeddiadau a ddosberthir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn ddwyieithog mewn papurau Saesneg ac yn Gymraeg yn unig mewn papurau Cymraeg.

14.3 Bydd Heddlu Gwent yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoedduswydd yng Nghymru yn ddwyieithog, mewn modd sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal. Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio yn ymddangos yng Nghymru gyda'r fersiwn Cymraeg a Saesneg yn cael eu dangos gyda'i gilydd ac yn gyfartal o ran fformat, maint, safon, eglurder ac amlygrwydd, boed hynny yn y wasg neu ar hysbysfyrddau neu unrhyw fan arall.

- Bydd yr holl ddeunydd cyhoedduswydd sydd i'w defnyddio yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg.
- Caiff ymgyrchoedd hysbysebu yn y wasg yng Nghymru eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd ymgyrchoedd cyhoedduswydd ar y teledu a'r radio a darllediadau bwletinâu gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd hysbysebu ar bosteri a phalisau a'r defnydd o negeseuon electronig yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg.
- Cynhelir arolygon cyhoeddus yng Nghymru, boed hwy'n rhai a gynhelir trwy'r post, o ddrws i ddrws, ar y stryd, neu mewn modd arall, yn ddwyieithog.
- Cynhelir ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd mecanweithiau ymateb yn ymwneud â gweithgareddau cyhoedduswydd a marchnata yng Nghymru yn caniatáu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Bydd gwybodaeth ar stondinau arddangos ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

14.5 Bydd hysbysiadau recriwtio yn holl Gyhoeddiadau Saesneg y DU (e.e. Police Review) yn ymddangos yn Saesneg yn unig oni bai:

- bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol
- y byddai o fudd i hysbysebu'n ddwyieithog i ddenu siaradwyr Cymraeg o bob rhan o'r DU.

14.6 Bydd hysbysiadau recriwtio yn holl gyhoeddiadau Saesneg y DU yn cyfeirio at natur ddwyieithog Cymru a bod croeso i geisiadau gan siaradwyr Cymraeg.

14.7 Bydd unrhyw hysbysiadau neu hysbysebion recriwtio a roddir yn unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Gweithredu

- i) Bydd yr holl wybodaeth sydd i'w rhoi ar wefan y Llu yn ddwyieithog.
- ii) Dylai staff sy'n gyfrifol am baratoi ymgyrchoedd cyhoedduswydd gynllunio yn ddwyieithog a dylent ystyried yr angen i arddangos sensitifrwydd ieithyddol a diwylliannol wrth gynllunio.
- iii) Bydd gofyn i unrhyw grŵp sy'n mynd i bartneriaeth gyda'r heddlu am resymau cyhoedduswydd i gydymffurfio a Chynllun Iaith Gymraeg y Llu neu eu cynllun eu hunain.

15. GWEITHREDU'R POLISI

Staffio, Recriwtio a Hyfforddi

- 15.1 Mae Heddluoedd Cymru ar hyn o bryd yn gweithio i wella darpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes ganddynt ddigon o staff gyda'r gallu, yr hyder a'r parodrwydd i siarad Cymraeg, er mwyn gwarantu gwir ddewis iaith yn narpariaeth eu gwasanaethau i'r cyhoedd. O ganlyniad, mae lluoedd wedi ymrwymo i gynyddu nifer y staff dwyieithog sy'n cael eu recriwtio ac i roi cyhoedduswydd i'r ffaith honno.
- 15.2 Mae Heddlu Gwent yn awyddus i annog y gallu i bob aelod newydd o staff i allu dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol o ran y Gymraeg ac ymwybyddiaeth a sensitifrwydd ieithyddol pan y'u penodir (lefel 1 yn fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg yr Heddlu). Gwneir hyn er mwyn newid proffiliau ieithyddol y Llu mewn modd sydd wedi ei gynllunio.

Gweithredu

- (i) Bydd Heddlu Gwent yn parhau i geisio recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr sydd â'r sgiliau perthnasol eraill i gyflawni gofynion swydd. Rhan o'r broses hon yw meithrin a chynnal cysylltiad gyda sefydliadau a chymdeithasau Cymraeg.
 - (ii) Bydd y Llu yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn yr ymgyrchoedd recriwtio a bod digon o adnoddau staff yn bodoli i gyflawni'r amcan.
 - (iii) Bydd yr heddlu yn ymchwilio cyfleoedd i sicrhau bod gan unrhyw aelodau newydd o staff rywfaint o sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg cyn ymuno neu yn ystod y cyfnod ymsefydlu, er mwyn sicrhau bod gan bawb yn y sefydliad y gallu i ddangos rhywfaint o gwrteisi ieithyddol sylfaenol fel isafswm yn y dyfodol. Ymchwilir hefyd y cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau sylfaenol hyn ymhellach yn ystod y cyfnod prawf.
- 15.3 Mae esbonio cefndir, nodau ac amcanion y Cynllun Iaith yn hollbwysig er mwyn cyflwyno newid diwylliannol yn y Llu. Bydd pob aelod newydd o staff yn y Llu yn derbyn cyflwyniad o ddisgwyliadau'r sefydliad fel rhan o unrhyw gwrs ymsefydlu ar gyfer staff newydd. Bydd sesiynau ymwybyddiaeth iaith hefyd yn

cael ei darparu yn ystod cyrsiau datblygu sgiliau rheoli a chysiau ar gyfer staff sydd â chysylltiad cyson â'r cyhoedd.

Gweithredu

- i) Bydd heddlu Gwent yn sicrhau bod yr holl staff newydd yn ymwybodol o nodau ac amcanion y Cynllun Iaith Gymraeg a rôl dewis iaith i sicrhau safon gwasanaeth yng Nghymru. Caiff cyfleodd eu dynodi hefyd mewn cyrsiau datblygiadol a thrwy gysylltiadau mewnol i sicrhau bod staff sefydledig hefyd yn ymwybodol o'r amcan corfforaethol a chyfrifoldeb unigol.
 - ii) Bydd Heddlu Gwent yn ymchwilio ffyrdd o ddatblygu neu wella'r ddarpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth ieithyddol a sensitifwydd ieithyddol fel rhan o unrhyw gwrs hyfforddi, yn arbennig cyrsiau hyfforddi ar gyfer swyddi sy'n golygu cysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd e.e. hyfforddiant rôl benodol.
- 15.4 Defnyddir Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg yr Heddlu i asesu lefelau cymhwysedd yn y Gymraeg (Atodiad C). Hysbysir ymgeiswyr am swyddi o'r lefelau cymhwysedd priodol sy'n ofynnol.
- 15.5 Pan fo angen hynny, ac er mwyn cyflawni nod datganedig, e.e. darpariaeth wirioneddol o ddewis iaith i'r cyhoedd, bydd Heddlu Gwent yn dynodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle y mae disgwyl bod lefel benodol o allu i siarad Cymraeg hyd at lefel 3 neu uwch fel y dynodir yn y fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg (swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol'). Bydd gweithgor iaith Gymraeg Heddluoedd Cymru yn ymchwilio ffyrdd o fesur y lefel ofynnol o allu yn y Gymraeg ar gyfer bob swydd. Bydd rhai swyddi yn gofyn am lefel uwch o allu (lefel 4 neu 5) oherwydd natur eu cyfrifoldebau.
- 15.6. O 1 Ebrill 2006 mae Heddlu Gwent wedi darparu mewnbwn i bob cwnstabl ar brawf newydd i sicrhau eu bod yn cyrraedd safon lefel 1, h. y. y gallu i ynganu enwau lleoedd a dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol. Caiff hyn ei gyflwyno drwy hyfforddiant iaith yn seiliedig ar CD drwy Raglen Datblygu a Dysgu Cychwynnol yr Heddlu a chaiff ei ymestyn i gael ei chynnwys yn rhaglen ymsefydlu pob aelod o staff.

Gweithredu

- (i) Bydd Heddlu Gwent yn gweithio tuag at gydnabod gallu yn y Gymraeg fel sgil neu gymhwysedd penodol.
 - (ii) Bydd gan Adrannau Adnoddau Dynol berchnogaeth ganolog ac arolygaeth strategol dros y broses o ddynodi gofynion lefel gallu yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd.
 - (iii) Bydd rheolwyr adnoddau dynol yn sicrhau bod Rhanbarthau / Adrannau yn ystyried anghenion ieithyddol swyddi a lleoliadau wrth benderfynu pa staff sy'n briodol ar gyfer swydd arbennig.
- 15.7 Darperir y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg er mwyn galluogi staff i ddynodi a chofnodi eu lefel sgil presennol yn y Gymraeg fel rhan o'r Adolygiad

Datblygu Proffesiynol (PDR) blynyddol. Caiff y pwyslais ei roi ar allu a pharodrwydd i ddefnyddio sgiliau iaith yn y gwaith. Gellir gweld y fframwaith a'r nodiadau esboniadol yn Atodiad C. Dylid ei defnyddio bob tro y bydd ei hangen i ddynodi lefelau cymhwysedd yn y Gymraeg.

- 15.8 Caiff aelodau o staff nad sydd eisoes yn siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl eu hannog i ddysgu Cymraeg neu wella eu gallu yn yr iaith. Rhoddir blaenoriaeth i swyddi sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd. Caiff rhaglenni dysgu a hyfforddi eu trefnu sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi. Pan fod achos busnes dros fuddsoddi mewn staff yn mynychu cyrsiau hyfforddiant iaith, cânt eu cynnal yn ystod oriau gwaith. Mae hyn yn rhan o nod strategol Heddlu Gwent i ddarparu cydraddoldeb yn y ddwy iaith, sy'n blaenoriaethu darpariaeth allanol dewis iaith.

Gweithredu

- (i) Bydd hyfforddiant iaith Gymraeg yn derbyn yr un statws ag unrhyw hyfforddiant arall yn y Llu. Defnyddir prosesau sy'n rhan o Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (PDR) i ganfod anghenion hyfforddiant staff. Os caiff yr angen am hyfforddiant iaith Gymraeg ei godi / ddynodi, neu os bydd aelod o staff yn dynodi'r awydd i ddysgu Cymraeg, caiff hyn ei nodi gan y Rheolwr Adnoddau Dynol Rhanbarthol / Adrannol.
 - (ii) Fel y mae'r drefn gydag unrhyw fath o hyfforddiant, bydd yn gyfrifoldeb rheolwyr llinell i enwebu staff i fynychu cyrsiau ac i hwyluso a monitro presenoldeb yn ogystal â dangos diddordeb yn natblygiad yr unigolyn.
 - (iii) Bydd Heddlu Gwent yn annog pob aelod staff sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd ac nad sy'n gallu siarad Cymraeg i ddatblygu gallu sylfaenol yn y Gymraeg er mwyn cryfhau gallu'r Llu i ddangos cwrteisi ieithyddol e.e. drwy ddefnyddio deunydd dysgu ar CD.
- 15.9 Os penodir rhywun nad sy'n siarad Cymraeg i swydd sydd wedi ei dynodi fel un sy'n gofyn am lefel benodol o gymhwysedd yn y Gymraeg, lefel 3 neu uwch, fel un o sgiliau craidd y swydd (swydd 'Cymraeg yn Hanfodol'), disgwylir i'r unigolyn a benodir ddysgu'r iaith i'r lefel disgwylidig o fewn cyfnod y cytunir arno. Caiff contractau swyddi eu haddasu i gynnwys y gofyniad hwn. Os na chyrhaeddir y targed dysgu o fewn cyfnod penodedig, caiff perfformiad yr aelod o staff ei adolygu yn unol â'r contract cyflogaeth.

Gweithredu

- (i) Bydd yr Adrannau Adnoddau Dynol yn ganolog yn gyfrifol am arolygu a monitro'r broses hon.
- (ii) Pan gyfwelir unigolyn ar gyfer swydd sydd wedi ei dynodi fel 'Cymraeg yn Hanfodol' cynhelir y cyfweiliad yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg. Caiff gallu Cymraeg yr ymgeisydd ei asesu fel rhan o'r broses gyfweld.

15.9 Pan fo hynny'n briodol, cynigir hyfforddiant Cymraeg galwedigaethol i aelodau staff.

Gweithredu

- (i) Bydd Heddlu Gwent yn parhau i weithio tuag at roi dewis iaith i'r cyhoedd sy'n mynychu canolfannau asesu i'w dewis fel swyddogion heddlu neu sy'n mynychu cyfweiliad ar gyfer swydd staff heddlu.
- (ii) Bydd Heddlu Gwent yn adolygu'r angen a'r galw am ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol drwy gyfrwng y Gymraeg i rai ar gyfnod prawf.
- (iii) Bydd Heddlu Gwent yn parhau i ofyn i Asiantaeth Genedlaethol Gwella'r Heddlu (Corff Arholi Heddluoedd) a'r Swyddfa Gartref i ddarparu gweithdrefnau dewis staff ac arholiadau dyrchafu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.
- (iv) Bydd holl gydgyssylltwyr cyrsiau hyfforddi sy'n cyfeirio at ddarparu gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd yn sicrhau bod cyfeiriad at rôl dewis iaith mewn cyflwyniad gwasanaeth yn cael lle amlwg yn y rhaglenni. Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn cynnig cyngor a chefnogaeth, gan gynnwys gwybodaeth benodol am y pwnc hwn.

15.10 Caiff egwyddorion y polisi hwn ei ystyried wrth baratoi'r strategaeth Adnoddau Dynol.

16. TREFNIADAU GWEINYDDOL

16.1 Mae Prif Gwnstabiliaid ac Awdurdodau Heddlu Cymru yn llwyr ymrwymedig i gyflawni'r egwyddorion a ddisgrifir yn y polisi hwn.

Mae'r cynigion hyn wedi eu trafod yn llawn a'u cymeradwyo gan Brif Swyddogion Heddlu ac Awdurdodau Heddlu Cymru.

16.2. Mae Heddlu Gwent ac Awdurdod Heddlu Gwent yn rhoi ymrwymiad i integreiddio agweddau iaith Gymraeg gwasanaethau'r sefydliad i'w proses weinyddol arferol. Pan gyflwynir cynlluniau am brosiect newydd i'r Awdurdod ar gyfer ei gymeradwyo, rhoddir ystyriaeth i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.

16.3. Mae cwblhau'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi ei gynnwys fel amcan yng Nghynllun Busnes Corfforaethol y Llu, sy'n amlinellu prif newidiadau sefydliadol sy'n digwydd o fewn y Llu.

16.4 Mae'r cyfrifoldeb penodol o sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu yn waith swyddog ACPO sy'n gyfrifol am y portffolio iaith Gymraeg.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob Comander Rhanbarthol a Phenaethiaid Adrannau i ddsbarthu manylion y cynllun a sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymwybodol o'r gofynion.

- 16.5. Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn ganolog gyfrifol am ddsbarthu gwybodaeth, cyfarwyddiadau a chanllawiau mewn perthynas â'r Cynllun hwn.
- 16.6. Bydd Heddlu Gwent yn cydnabod bod darparu dewis iaith a dangos sensitifrwydd ieithyddol yn chwarae rhan sylweddol mewn sicrhau gofal a bodlonrwydd cwsmeriaid.

Gweithredu

- i) Pan gyflwynir unrhyw gynlluniau datblygu prosiect / polisi i'w cymeradwyo gan y Prif Swyddogion a/neu yr Awdurdod bydd angen nodi bod y cynllun / polisi yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- ii) Bydd angen i unrhyw brif swyddogion newydd / aelodau newydd o'r Awdurdod Heddlu fynychu sesiwn ymwybyddiaeth a sensitifrwydd iaith Gymraeg fel rhan o gwrs ymsefydlu'r Llu / Awdurdod

17. LLYFRYN GWYBODAETH

Caiff llyfryn gwybodaeth ei baratoi ar gyfer pob aelod staff yn esbonio natur y Cynllun a sut y dylai gael ei weithredu a'r dyddiadau targed a nodir. Gellir gweld y wybodaeth hon ar safle iaith Gymraeg Mewnwyd y Llu.

Gweithredu

- i) Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn rhoi cyngor a chanllawiau i staff ar eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.

18. GWASANAETHAU A RODDIR AR RAN HEDDLU GWENT AC AWDURDOD HEDDLU GWENT GAN BARTNERIAETH ERILL

18.1 Pan yn cyflawni swyddogaethau statudol a'r rheini sy'n rheoleiddio darpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd bydd y Llu yn:

- i) Annog sefydliadau trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaeth.
- ii) Cyfeirio'r sefydliadau at y Cynllun Iaith Gymraeg a'r arferion da sydd wedi eu nodi ynddo a chynnwys mesurau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg mewn cytundebau gwasanaeth, trwyddedau gwasanaeth a dogfennau rheoleiddiol eraill er mwyn cynnig arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau.

18.2 Mae Heddlu Gwent yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff cyhoeddus eraill, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Byddwn yn gweithio ar amrywiaeth o lefelau pan yn cydweithio ag eraill:

- i) Pan fyddwn yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, byddwn yn sicrhau bod darpariaeth y cyhoedd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.
- ii) Pan fyddwn yn ymuno mewn partneriaeth y bydd corff arall yn ei arwain, bydd ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith, neu Gynllun sydd wedi ei gytuno o fewn y Bartneriaeth a byddwn yn annog

- partïon eraill i gydymffurfio.
- iii) Pan fyddwn yn gweithredu fel rhan o gonsortiw, byddwn yn annog y consortiw i fabwysiadu cynllun iaith. Pan yn gweithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiw byddwn yn gweithredu yn unol â'r Cynllun iaith.

Pan fyddwn yn ymuno neu yn ffurfio partneriaeth, byddwn yn holi partneriaid posibl eraill am eu Cynllun iaith, eu polisi iaith neu'r modd y bwriadant weithredu'n ddwyieithog. Ym mhob partneriaeth byddwn yn cynnig cyngor a chefnogaeth i bartïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

Byddwn yn paratoi canllawiau ar gyfer swyddogion sy'n mynd i mewn i bartneriaethau gan esbonio'r cyfrifoldebau yn unol â'r Cynllun iaith ac yn esbonio sut y dylai swyddogion fynd ati i briodoli disgwyliadau'r Cynllun iaith i waith y bartneriaeth

- 18.3 Pan ddefnyddir meddalwedd cyfrifiadurol i gynhyrchu unrhyw ddogfennaeth gyhoeddus, bydd ganddo'r gallu i gynhyrchu dogfennaeth Cymraeg a Saesneg o'r un safon.

Gweithredu

- i) Bydd swyddogion cydgysylltu unrhyw brosiect ar y cyd gydag asiantaethau / cyrff eraill yn sicrhau bod y prosiect yn cydymffurfio â Chynllun iaith Gymraeg y Llu. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a chynhyrchu llenyddiaeth esboniadol / hyrwyddol.

19. MONITRO GWEITHREDIAD Y CYNLLUN

- 19.1 Caiff y Cynllun ei fonitro drwy Grŵp Iaith Gymraeg y Llu o dan arolygaeth y Bwrdd Hyder a Chydraddoldeb a Phwyllgor yr Awdurdod Heddlu ar Amrywiaeth ac Adnoddau Dynol.

19.2. Polisiâu a Gweithdrefnau

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau newydd yn cydymffurfio â darpariaeth gwasanaethau dwyieithog yn gyfartal.

Gweithredu

- (i) Rhaid i unrhyw bolisi newydd neu bolisi sydd i'w adolygu ddatgan ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun iaith Gymraeg. Bydd gofyn i'r rheolwyr polisi lenwi ffurflen i'r perwyl hwn fel rhan o'r broses gymeradwyo.

19.3. Darpariaeth Gwasanaeth

Bydd Heddlu Gwent ac Awdurdod Heddlu Gwent yn monitro'n barhaus ddarpariaeth gwasanaeth y sefydliad yn y ddwy iaith, eu heffeithiolrwydd, a pha mor dda yw'r sefydliad am annog y defnydd o'r Gymraeg gan bartïon eraill. Caiff darpariaeth gwasanaeth hefyd ei asesu drwy fonitro ein perfformiad yn erbyn y mesurau a nodir yn Atodiad B.

Gweithredu

- i) Mae gofyn i bob Rhanbarth/Adran baratoi adroddiadau i Grŵp Iaith Gymraeg y Llu ynglŷn â'u defnydd o'r Gymraeg ar gais y cadeirydd.
- ii) Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaid o ddydd i ddydd Rhanbarthau/Adrannau gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg, gyda chefnogaeth Prif Swyddogion ACPO a fydd yn gyfrifol am y Portffolio Iaith Gymraeg.
- iii) Bydd rheolwyr Rhanbarthol/Adrannol yn gyfrifol am ddatblygu prosesau a fydd yn sicrhau bod eu gweithdrefnau a'u gweithrediadau yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg. Byddant yn enwebu aelod o'u tîm rheoli i weithredu fel cydgysylltydd ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg. Y person hwn fydd yn gyfrifol am lenwi a dychwelyd adroddiadau monitro i Grŵp Iaith Gymraeg y Llu.
- iv) Bydd unrhyw ymchwil ynglŷn â bodlonrwydd y cyhoedd gyda'r gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu yn cynnwys cyfeiriad at y gallu i dderbyn gwasanaeth iaith Gymraeg.
- v) Ar hyn o bryd nid yw naill ai'r Swyddfa Gartref nac Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi yn rhoi unrhyw ystyriaeth i fodolaeth dwy iaith swyddogol yng Nghymru pan gynhelir Arolwg. Bydd heddluoedd yn parhau i herio'r ymagwedd hon er mwyn sicrhau bod ei fuddsoddiad a'i ymdrech yn cael ei gydnabod fel rhan o ymateb yr heddlu i faterion Amrywiaeth yn ei ardal,

19.4 Delio ag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Bydd y Llu yn monitro amseroedd ymateb o ran llythyrau Cymraeg, safon y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a'r trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd dwyieithog gyda'r cyhoedd a phartneriaethau.

Gweithredu

- i) Caiff ystyriaethau Cymraeg a dewis iaith yn y ddwy iaith swyddogol eu prif ffrydio i holl systemau a phrosesau sicrhau ansawdd y Llu.

19.5 Delwedd Gyhoeddus y Sefydliad

Bydd y Llu yn monitro defnydd cyhoeddiadau, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a deunydd arall dwyieithog yn ogystal â sicrhau bod hunaniaeth gorfforaethol y Llu yn cael ei lledaenu.

Gweithredu

- (i) Bydd unrhyw nodweddion corfforaethol yn defnyddio'r ddwy iaith a bydd y Gymraeg yn ymddangos uwchben neu ar y chwith i'r

Saesneg.

- (ii) Bydd y pennaeth Rhanbarthol/Adrannol yn gyfrifol am fonitro'r defnydd o ddeunyddiau dwyieithog.

19.6 Staffio

Bydd y Llu yn monitro'r mesurau staffio a hyfforddi a ddisgrifir yn y Cynllun.

Gweithredu

- (i) Caiff gallu, hyder a pharodrwydd staff i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith ei brif ffrydio i holl brosesau a systemau Adnoddau Dynol y Llu. Bydd Adran Adnoddau Dynol ganolog y Llu yn cydlynu hyn ac yn sicrhau cydymffurfiad gan reolwyr adnoddau dynol Rhanbarthol/Adrannol. Caiff adroddiadau priodol ar y sefyllfa staffio eu cynhyrchu a'u darparu ar gais Grŵp Iaith Gymraeg y Llu.

20. Amserlen

Caiff staff a'r cyhoedd eu hysbysu o amcanion Cynllun Iaith Gymraeg y Llu yn ogystal â pherfformiad blynyddol yn erbyn yr amcanion hyn.

Bydd lluoedd yn monitro cyflawniadau yn erbyn y targedau hyn yn unol â'r disgrifiad a roddir yn yr amserlen gweithredu yn y Cynllun Iaith Gymraeg.

Gweithredu

- (i) Bydd cyflawniad targedau'r Cynllun Iaith yn ffurfio rhan o dargedau corfforaethol y Llu. Caiff cyfeiriadau at ddatblygiadau a chyflawniadau o ran y Cynllun Iaith Gymraeg eu cynnwys yn Adroddiadau Blynyddol y Llu.
- ii) Bydd cydgysylltwyr Adrannol/Rhanbarthol yn gyfrifol am hysbysu staff ynglŷn â nodau ac amcanion y Cynllun Iaith.
- iii) Bydd gwybodaeth am nodau ac amcanion y Cynllun ar gael ar wefan a safle mewnwyd y Llu.

21. ASIANTAU A CHONTRACTWYR

Bydd Heddlu Gwent yn monitro darpariaeth a gweinyddiad gwasanaethau gan asiantau a chontractwyr y Llu er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda'r Cynllun.

Gweithredu

- (i) Bydd y person sy'n gyfrifol am brynu/rheoli gwasanaethau gan

asiantaethau a chontractwyr yn sicrhau bod eu darpariaeth gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

22. SYLWADAU A CHWYNION AM Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG

22.1 Fel rhan o raglen sicrhau ansawdd y Llu, rhoddir ystyriaeth i'r hyn a ddywed aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg am yr ystod a'r safon o wasanaeth a ddarperir gan bob Llu.

22.2 Fel gyda phob cwyn yn ymwneud â'r Heddlu, bydd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn gyfrifol am fonitro amllder a natur y cwynion parthed gwasanaeth iaith Cymraeg y Llu. Caiff cwynion sy'n berthnasol i'r Cynllun Iaith eu trin yn unol â gweithdrefn cwynion Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC).

22.3

Gweithredu

- i) Caiff unrhyw gŵyn am y Cynllun Iaith ei gofnodi fel cwyn yn erbyn y sefydliad ac ymdrinnir ag ef gan ein Gweithdrefn Cwynion Sefydliadol. Caiff y gŵyn ei chofnodi gan yr Adran Safonau Proffesiynol.
- ii) Bydd penaethiaid Rhanbarthol / Adrannol yn sicrhau y caiff unrhyw sylwadau eraill gan y cyhoedd ynglŷn â safon y gwasanaeth Cymraeg ei ddwyn i sylw Grŵp Iaith Gymraeg y Llu.
- iii) Bydd Heddlu Gwent yn ymdrechu i dderbyn sylwadau gan siaradwyr Cymraeg a'u cynrychiolwyr ynglŷn â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg mewn modd rhyngweithiol drwy ddefnyddio holiaduron, ymchwil marchnad a grwpiau ffocws.

23. CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN IAITH

23.1 Bydd Heddlu Gwent yn codi ymwybyddiaeth staff ynglŷn â bodolaeth y Cynllun Iaith a'i nodau ac amcanion. Defnyddir sesiynau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith fel rhan o gynlluniau hyfforddiant eraill a defnyddir gweithdrefnau mewnol i ddsbarthu gwybodaeth.

23.2 Yn draddodiadol, mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi arfer â delio gyda chynrychiolwyr awdurdod drwy gyfrwng y Saesneg, Bydd heddluoedd yng Nghymru yn gweithio'n gyson i herio'r agwedd hon. Rhan o hyn fydd sicrhau bod mynediad at wasanaeth Cymraeg yn un mor hawdd â mynediad at wasanaethau Saesneg. Ceisir cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau a thrwy daflenni ac ymgyrchoedd am ddatblygiadau cadarnhaol ynghylch gweithredu'r Cynllun Iaith.

Gweithredu

- i) Gellir cael manylion y Cynllun Iaith Gymraeg ar fewnwyd pob Llu.

- ii) Mae copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg, yn ogystal â chyngor a chanllawiau ar gyfer gwybodaeth i staff ar gael ar Fewnrwyd y Llu.
- iii) Bydd arwyddion arddangos mewn mannau cyhoeddus megis cownteri blaen mewn Gorsafoedd Heddlu, mewn derbynfeydd adeiladu a dalfeydd yn datgan bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.

COFNODI

Bydd Heddlu Gwent yn paratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ffurf sydd wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn disgrifio datblygiadau ynglŷn â gweithredu mesurau yn y Cynllun yn erbyn amserlenni gweithredu ac yn erbyn safonau gwasanaeth cytunedig. Byddant hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r nifer a natur cwynion neu awgrymiadau yn ymwneud â gwelliannau gan y cyhoedd ynglŷn â materion yr iaith Gymraeg.

Mae'r monitro yn unol â gofynion y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ac mae'r Cynllun hwn yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf honno.

Gweithredu

- i) Bydd Grŵp Iaith Gymraeg y Llu yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â gweithredu'r Cynllun Iaith.

ATODIAD A - ARWEINIAD YNGLŶN Â PHA DDOGFENNAU DDYLAI FOD YN DDWYIEITHOG (NEU YN GYMRAEG A SAESNEG)

APPENDIX A - GUIDANCE ON WHICH DOCUMENTS SHOULD BE BILINGUAL (OR IN ENGLISH AND IN WELSH)

Eitemau Categori A: i fod yn ddwyieithog (neu yn Gymraeg a Saesneg)

Category A items: to be bilingual (or in Welsh and in English)

Hysbysebion / Advertisements	Llenyddiaeth recriwtio Recruitment literature
Llyfrynau i'r cyhoedd/ Booklets for the public	Ffurflenni a phecynnau ymgeisio am swydd Job application forms and packs
Pamffledi / taflenni Brochures / leaflets	Arddangosfeydd i'r cyhoedd Displays for the public
Ffurflenni i'r cyhoedd Forms for the public	Holiaduron / arolygon i'r cyhoedd Questionnaires / surveys for the public
Eitemau i'w harddangos yn gyhoeddus e.e. sticeri, posteri, tocynnau, hysbysiadau rhybuddio Items for public display e.g. stickers, posters, passes, warning notices	Rhaglenni gwaith a chofnodion Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu Force Welsh Language Group agendas and minutes
Adroddiadau Blynyddol Annual reports	Datganiadau a bwletinâu ystadegol Statistical bulletins and releases
Deunyddiau cyhoeddusrwydd Publicity material	Cardiau busnes Business cards
Cylchlythyrau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd Newsletters which are aimed at the public	Dogfennau ymgynghori sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd Consultation documents which are aimed at the public
Llythyrau safonol Standard letters	

Eitemau Categori B: eitemau fydd o bosib yn ddwyieithog gan ddibynnu ar amgylchiadau

Category B items: items which might be bilingual depending on circumstances

Taflenni newyddion mewnol Internal newsletters	Cyflwyniadau / Presentations
Papurau ymchwil / Research papers	Strategaethau / Strategies
Adroddiadau / Reports	Cylchlythyrau / Circulars
Dogfennau ymgynghori mewnol Internal consultation documents	Atodiadau i bapurau pwyllgor Annexes to Police Authority papers
Rhaglenni gwaith a chofnodion cyfarfodydd Awdurdod yr Heddlu Police Authority Meetings Agendas and minutes	Papurau Awdurdod yr Heddlu Police Authority papers
Datganiadau i'r wasg Press notices	

Eitemau Categori C: fel arfer mewn un iaith

Category C items: will usually be monolingual

<p>Cyfrifon (oni bai eu bod yn rhan o adroddiadau blynyddol) Accounts (unless they form part of annual reports)</p>	<p>Gwybodaeth fewnol a gyhoeddir yn gyffredinol o dan Ryddid Gwybodaeth Internal information released generally under Freedom of Information</p>
<p>Taflenni a ddsberthir mewn cynadleddau gan gyrff neu unigolion eraill Conference handouts supplied by other bodies or individuals</p>	<p>Drafftiau gwaith / Working drafts</p>
<p>Dogfennau contract (ac eithrio os gwnaethpwyd cais amdanynt neu mewn sefyllfaoedd penodol Contract documentation (except on request or in specific situations)</p>	<p>Dogfennau mewnol Internal documentation</p>
<p>Gwybodaeth hanesyddol / archif Historical / archive information</p>	

Rhai canllawiau:

Ystyriaethau		
Cynulleidfa darged	Aelodau o'r cyhoedd lle ceir galw amlwg a sefydledig am ddeunydd yn yr iaith Gymraeg - Categori A	Arbenigwyr o fewn sectorau neu sectorau penodol lle na cheir llawer o alw am ddeunydd yn yr iaith Gymraeg - Categori C
A fydd yr eitem yn cael ei rhannu neu ei thrafod yn fewnol gan sefydliadau eraill?	Bydd Categori A/B	Na fydd - Categori C
Galw / diddordeb tebygol ar ran y cyhoedd neu lu o siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai sydd â diddordeb.	Uchel (diddordeb ymysg y cyhoedd yng Ngogledd Cymru neu ddiddordeb penodol i siaradwyr Cymraeg) Categori A	Isel (grwpiau arbenigol) - Categori C
Statws/proffil allanol	Oes - Categori A	Dim Categori C

Categori A – Dylai'r dogfennau hyn fod yn ddwyieithog ac fe fyddant yn ddwyieithog

Categori C – Saesneg yn unig ar hyn o bryd ond efallai y byddant yn cael eu hailddynodi yn y dyfodol.

Noder: Mae'n anochel na fydd yr uchod yn cynnwys pob math o ddogfen. Dylai staff ddefnyddio barn wrth sicrhau eu bod yn dewis categori addas ar sail gymharol wrth asesu a ddylai eitemau fod yn ddwyieithog. Os oes unrhyw ansicrwydd dylid ceisio arweiniad gan yr Uned Cyfieithu neu'r Grŵp Iaith Gymraeg.

Atodiad B –

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG YR HEDDLU
TARGEDAU A DANGOSYDDION PERFFORMIAD**

Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

Canllaw 3 - Polisiâu a Mentrau Newydd

Targed

Bydd heddluoedd yn prif ffrydio'r Gymraeg i holl bolisiâu'r Llu drwy lunio rhaglen brif ffrydio polisiâu strwythuredig i'w chwblhau yn ystod y cyfnod y mae'r Cynllun hwn mewn grym.

DP 1 % y polisiâu newydd a diwygiedig sydd wedi prif ffrydio'r iaith Gymraeg.

Targed

Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith busnes fewnol.

DP 2 Nifer y dogfennau busnes mewnol a gynhyrchir yn Gymraeg

Canllaw 4 – Darparu Gwasanaeth

Targed

Bod Heddlu Gwent yn trosglwyddo gofynion y Cynllun Iaith yn glir tra'n sicrhau bod yr iaith yn rhan annatod o ddarpariaeth gwasanaeth gan eraill a bod cydymffurfiaid â hyn yn cael ei fonitro, yn arbennig gyda phartneriaethau.

Cyhoeddi Gwybodaeth am Berfformiad

DP 3 % yr holl bartneriaethau a gafodd eu monitro sy'n darparu'n unol â gofynion y Cynllun Iaith.

Darparu Gwasanaeth ar gyfer y Cyhoedd yng Nghymru

Canllaw 6

Targed

Nifer digonol o staff ar ddyletswydd bob amser yn Ystafell Gyfathrebu'r Llu er mwyn sicrhau dewis iaith erbyn 2008

- DP 4** % staff Ystafell Gyfathrebu'r Llu sy'n ddwyieithog (lefel 4 ac uwch) er mwyn sicrhau dewis iaith.
% staff dalfeydd sy'n ddwyieithog (lefel 4 ac uwch) er mwyn sicrhau dewis iaith.

Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Canllaw 15

Targed

Cynyddu'r nifer o staff yn y gweithle sydd â'r gallu a'r parodrwydd i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn bodloni'r gofyn i ddarparu gwasanaethau o ansawdd.

- DP 5** % staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster cydnabyddedig a / neu i lefel briodol Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg yr Heddlu.

- DP 6** % staff sy'n gallu siarad Cymraeg (Ceir manylion ynglŷn â ble y mae siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn yr Adroddiad Blynnyddol)

- a) **DP 7** Cymhariaeth rhwng % y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned a'r % a recriwtiwyd i weithio yn yr Heddlu
- yn ôl rôl heddlu, staff yr heddlu, gwirfoddolwyr a theulu estynedig yr heddlu

Targed

Diffinio lefelau cymhwysedd iaith Gymraeg penodol i rôl ar gyfer pob swydd sy'n gymesur â faint o gyswllt uniongyrchol sydd gan y swydd â'r cyhoedd (Lefel 1 – 5).

- DP 8** % yr holl swyddi yn y Llu sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd sy'n cydymffurfio â'r lefel cymhwysedd iaith Gymraeg y cytunwyd arni (Lefel 1 – 5).

- DP 9** % y cwynion yn ymwneud â gweithrediad y Cynllun sy'n arwain at

newid polisi / gweithdrefn.

Gofynion Statudol Eraill

Cyhoeddusrwydd – Adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Targed

Hyrwyddo gwasanaethau penodol sy'n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn rhoi'r dewis o'u defnyddio i siaradwyr Cymraeg.

- DP 10** % y defnydd o wasanaethau penodol yn yr iaith Gymraeg:
- (a) Llinell iaith Gymraeg ar gais
 - (b) Recriwtiaid swyddogion yr heddlu sy'n dewis mynd trwy'r cyfweiliad terfynol yn yr iaith Gymraeg (drwy ddarpariaeth o fewn y Llu neu gyd-gymorth)

Atodiad C

Sgiliau Cyfathrebu yn y Gymraeg

1. Fframwaith Newydd

1.1. Elfennau

- Dangos sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth ieithyddol
- Dangos parodrwydd i ddysgu Cymraeg a'i defnyddio yn y gweithle
- Deall Cymraeg
- Hwyluso dewis iaith ar ran y cwsmer
- Siarad Cymraeg
- Ysgrifennu yn Gymraeg (lle bo hynny'n briodol)
- Gallu a pharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith gydag aelodau o'r cyhoedd

1.2. Bydd y lefelau yn dangos cymhwysedd presennol yn amrywio o lefel 0 (dim sgiliau iaith Gymraeg y gellid eu gwerthfawrogi) hyd at lefel 5 'rhugl'. (medrus, hyderus ac yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyhoedd wrth gyflawni dyletswyddau).

2. Tabl y Fframwaith Cymhwysedd:

Diffinnir y lefelau gan gyfres o ddatganiadau 'gallu gwneud' sy'n:

- Diffinio lefelau gallu yn nhermau'r hyn y gall defnyddwyr iaith ei wneud fel rheol ar bob lefel o'r fframwaith
- Ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddeall beth yw ystyr pob lefel mewn perthynas â'r hyn y mae defnyddwyr iaith yn ei wneud mewn gwirionedd.

<i>Rhai ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn y Llu</i>	<u>Lefel 1</u>	<u>Lefel 2</u>	<u>Lefel 3</u>	<u>Lefel 4</u>	<u>Lefel 5</u>
Mewn swyddfa	Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau bedydd Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau / lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg.	Yn gallu deall hanfod sgwrs yn Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol e.e. tasgau gweinyddol syml neu dasgau rheolaidd.	Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu derbyn a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw mewn diwrnod gwaith arferol.	Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn eu maes gwaith a dadlau dros achos neu'n ei erbyn.	Yn gallu cyfweld ag ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg am swyddi, ac asesu pa mor addas ydynt.
Dyletswyddau Swyddogion Heddlu	Yn gallu dangos cwrtseisi ieithyddol drwy agor a chloi sgwrs. Yn gallu rhoi a derbyn manylion personol. Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf neu arwyddion Cymraeg yn gywir.	Yn gallu deall hanfod cais gan y cyhoedd ac ymateb i geisiadau syml. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddiadau.	Yn gallu trafod yn rhannol yn Gymraeg ond yn troi at y Saesneg yn ystod y drafodaeth er mwyn rhoi gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau.	Yn gallu ymwneud â'r cyhoedd yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn Gymraeg ond yn troi at y Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg dechnegol/yn ymwneud â phlisma.	Yn gallu ymdrin yn effeithiol â sefyllfaoedd cymhleth, ymholiadau gan y cyhoedd neu wrthdaro yn Gymraeg. Yn gallu cyfweld neu ofyn cwestiynau yn Gymraeg yng nghwrs ymchwiliad.
Cownter Gorsafoedd yr Heddlu / Derbynfa / Ar y ffôn	Yn gallu cyfarch yn ddwyieithog mewn ffordd sy'n addas i'r lleoliad. Yn gallu cyfarch ymwelwyr a chynnig dewis o iaith iddynt.	Yn gallu deall ceisiadau am gymorth ac yn ymateb yn Gymraeg i geisiadau syml. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg i drosglwyddo galwadau.	Yn gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Yn gallu cymryd manylion neu wneud nodyn o sgwrs Gymraeg.	Yn gallu ymdrin ag ymholiadau'n effeithiol. Yn gallu deall gwahaniaethau mewn tafodiaith.	Yn gallu ymdrin ag ymholiadau neu gwynion cymhleth neu sensitif gan y cyhoedd, ac ymdrin yn hyderus â chwestiynau anodd.
Cyfarfodydd Cyhoeddus / Siarad â'r Cyfryngau	Yn gallu agor a chloi cyfarfodydd a chroesawu'r rhai sy'n bresennol yn ddwyieithog.	Yn gallu cyflwyno'u hunain a phobl eraill yn ôl enw, rhenc, teitl swydd, a lleoliad /sefydliad. Yn gallu cyfrannu i gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg.	Yn gallu trafod neu gyflwyno'n rhannol yn Gymraeg, ond yn troi at y Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, ateb cwestiynau neu ddefnyddio gwybodaeth gymhleth.	Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg, ond yn troi at y Saesneg ar gyfer termau technegol neu dermau yn ymwneud â phlisma.	Yn gallu rhoi cyflwyniadau yn Gymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu anodd yn Gymraeg i'r graddau bod ganddo/ganddi'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol.
Ysgrifennu	Yn gallu anfon cais ysgrifenedig syml rheolaidd at gydweithiwr, er enghraifft 'Alla' i gael.... os gwelwch yn dda?	Yn gallu anfon cais ysgrifenedig byr at gydweithiwr neu gyswllt allanol.	Yn gallu ysgrifennu memos mewnol, anffurfiol, negeseuon e-bost ac ymdrin â cheisiadau rheolaidd.	Gyda chymorth golygyddol, yn gallu ysgrifennu llythyrau busnes, negeseuon e-bost a phosteri ar gyfer cwsmeriaid allanol.	Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a gwneud nodiadau llawn a chywir mewn cyfarfod.

Dyluniwyd a Chynhyrchwyd gan
Adran Cysylltiadau Corfforaethol Heddlu Gwent
22ain o Dachwedd, 2007

This document has also been produced and is available in English